

Pennaeth Amgylchedd ac Isadeiledd / Head of Environment and Infrastructure
Pennaeth Gwasanaeth / Head of Service - Geraint Edwards, BEng(Hons) CEng FICE
Ffôn/Tel: (01492) 575 437 **Ffacs/Fax (01492) 575454**
gwaithstryd@conwy.gov.uk streetworks@conwy.gov.uk

ODDI WRTH/FROM:

Stephen Daly

Dyddiad/Date: 11/02/2022

Nifer o Dudalennau (Gan Gynnwys Hon) / Number of Pages (Including This One) .2

Cais am Waharddiad dan Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847:

Llenwch y ffurflen sydd wedi ei hamgáu a marciwch leoliad a maint y gwaharddiad sydd ei angen arnoch yn glir ar gynllun. Nodwch y gofynion a ganlyn os gwelwch yn dda:

Bydd angen o leiaf 28 diwrnod i brosesu'r gwaharddiad.

Bydd unrhyw gostau gweinyddol a gaiff yr Awdurdod wrth drefnu'r gwaharddiad yn cael eu hystyried fel cyfraniad yr Awdurdod at y digwyddiad.

Ni fydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cyflwyno/cymeradwyo/cefnogi'r gwaharddiad nes byddwch wedi ymgynghori efo Heddlu Gogledd Cymru cyn y digwyddiad. Darparwch dystiolaeth i gadarnhau hyn, os gwelwch yn dda.

Bydd yr Awdurdod angen tystiolaeth bod gennych Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus hyd at £5 miliwn.

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o rwystrau ac arwyddion priodol i gau'r ffordd a dangos y ffyrdd eraill i yrwyr. Mae'n rhaid cael cwmni cymwys i osod yr arwyddion a rhaid darparu rhestr o'r arwyddion i'r Awdurdod i'w chymeradwyo.

Rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r gwaharddiad 7 diwrnod cyn i'r gwaharddiad ddod i rym.

Ar gyfer digwyddiadau fel gorymdeithiau, dim ond yr arwyddion rhybudd ymlaen llaw sydd eu hangen.

Os oes angen, mae'n rhaid sicrhau bod cerbydau argyfwng yn cael mynediad drwy'r safle yn ystod cyfnod y gwaharddiad. Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Brys am y gwaharddiad.

Bydd mynediad yn cael ei ganiatáu i gerddwyr drwy gydol cyfnod y gwaharddiad, oni nodwch fel arall yn eich ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi gwybod i drigolion neu fusnesau yn yr ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaharddiad, a chanfod unrhyw anghenion arbennig.

Mae'n rhaid cynnal Asesiad Risg a llunio Cynllun Argyfwng ar gyfer y gwaharddiad. Os oes angen, bydd rhaid darparu cynllun Rheoli Trafnidiaeth hefyd.

Efallai y bydd angen caniatâd yr Adran Drwyddedu arnoch, yn dibynnu ar y nifer y bobl rydych yn ei ddisgwyl yn eich digwyddiad. Cysylltwch â 01492 574 044 neu anfonwch neges e-bost at: licensing.unit@conwy.gov.uk
Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r holl Ddeddfau Trwyddedu gofynnol.

Bydd proses ymgynghori'n digwydd ac mae'n bosibl y bydd unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae pob croeso i chi ffonio Alison Tomlinson ar 01492 575 437.

Application for a Prohibition under Town Police Clauses Act 1847:

Please complete the attached form and mark clearly on a plan the location and extent of the prohibition you require. Note the following requirements: -

1 Allow a minimum of 28 days to process the prohibition.

2 Any administrative costs incurred by the Authority in setting up the prohibition are deemed to be the Authority's contribution to the event.

3 The Highway Authority **will not** issue/approve/endorse the prohibition until you have consulted with North Wales Police prior to the event. Please provide confirmation of this.

4 The Authority requires evidence of your Public Liability to the value of £5 million.

5 **The Applicant is responsible for ensuring that there is adequate and appropriate signing and guarding of the prohibition and diversionary routes.** This signage must be carried out by a competent body and a signing schedule must be provided to the Authority for approval.

Signing giving advance warning of the prohibition must be in place 7 days before the prohibition takes effect.

For events such as parades only the advanced warning signs are needed.

6 If required, a provision to allow access for Emergency vehicles must be made on site for the duration of the prohibition. The Authority will be informing the Emergency Services of the prohibition.

7 Pedestrian access is to be maintained during the prohibition period unless stated upon your application.

8 The Applicant is required to inform any residents or businesses within the area that will be affected by the prohibition, and identify any special needs.

9 A Risk Assessment and Emergency Plan must be undertaken for the prohibition. If necessary a Traffic Management plan must also be provided.

10 Depending on the numbers you are expecting at your event, you may require approval from the Licensing Department. Contact 01492 574 044 or e-mail: licensing.unit@conwy.gov.uk
It is your responsibility to ensure you meet with all required Licensing Legislation.

11 Be aware that a consultation process will be undertaken and objections may be considered by Conwy County Borough Council's Executive.

If you have any queries please contact Stephen Daly on 01492 575426.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL MEWN PRINT BRAS / THIS IS AVAILABLE IN LARGE PRINT

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a
Chyfleusterau
Adain Gwaith Stryd
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN



Environment, Roads and
Facilities
Street Works Section
PO Box 1
Conwy
LL30 9GN

Ffôn/Tel: (01492) 575 437 Ffacs/Fax (01492) 575454
gwaithstryd@conwy.gov.uk streetworks@conwy.gov.uk

**CAIS AM ORCHYMYN TRAFNIDIAETH DROS DRO
TOWN POLICE CLAUSES ACT 1847**

**APPLICATION FOR A TEMPORARY TRAFFIC ORDER
TOWN POLICE CLAUSES ACT 1847**

MANYLION Y CAIS/ APPLICATION DETAILS

Enw Cyswllt (PRIF LYTHRENAU)		Contact Name (BLOCK CAPITALS)
Cwmni		Company
Cyfeiriad		Address
Swyddog yr Heddlu yn bresennol		Police officer attending
Rhif Ffôn y Swyddfa		Office Number
Rhif Ffacs		Fax Number
Rhif ffôn mewn argyfwng / tu allan i oriau agor arferol		Emergency / out of hours Number
E-bost		E-Mail
Llofnod		Signed
Manylion y Contractwr Arwyddion		Signing Contractor Details
Enw'r Ffordd		Name Of Road
Cyfeirnod Grid		Grid Reference
Rheswm am y Gwaharddiad Dros Dro		Reason For Temporary Prohibition
Dyddiad y Cyfyngiad	Rhwng: A:	From: To:
Dates Of Restriction		
A fydd y cyfyngiad yn berthnasol tu allan i oriau gwaith? Nodwch yr amseroedd		Will Restriction Apply Outside Working Hours? Specify Times
Sylwadau		Comments
COFIWCH GYNNWYS GYNLLUN O'R LLEOLIAD! Edrychwch ar y Nodiadau Canllaw am fwy o wybodaeth		PLEASE INCLUDE LOCATION PLAN! Please refer to Guidance Notes for further information
Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i'r Swyddfa Gwaith Stryd yn y cyfeiriad uchod		Please return this form to the Street Works Office at the above address

